

## **ECONOMEG**

**Amser - 1.5 awr**

**Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr**

- a) Atebwch unrhyw ddau gwestiwn
  - b) Mae myfyrwyr sy'n dymuno defnyddio papur graff i ateb rhannau perthnasol o Gwestiynau 1 a 2 yn cael gwneud hynny, ond nid oes rhaid defnyddio papur graff.
  - c) Cewch ddefnyddio cyfrifianellau safonol nad oes modd eu rhaglennu.
- 

1. Tybiwch mai dim ond dau fath o nwyddau y gall rhyw wlad ddychmygol eu cynhyrchu, sef fwyd a ddillad. Tybiwch y gallai gynhyrchu'r cyfuniadau posib isod dros unrhyw gyfnod penodol:

Unedau o fwyd	0	10	20	30	40	50	60	70	80	90	100
Unedau o ddillad	80	79	77	74	70	65	58	48	35	19	0

- (a) Plotiwch gromlin posibilrwydd cynhyrchu (a elwir hefyd 'ffin eithaf posibilrwydd cynhyrchu') i'r wlad ddychmygol hon **(10 marc)**
- (b) Tybiwch fod y wlad hon ar hyn o bryd yn cynhyrchu 40 uned o fwyd a 70 uned o ddillad. Beth yw cost cyfle cynhyrchu 10 uned arall o fwyd? **(10 marc)**
- (c) Eglurwch sut mae'r gromlin posibilrwydd cynhyrchu yn dangos egwyddor costau cyfle cynyddol. **(10 marc)**
- (d) Tybiwch fod rhyw ddatblygiad technolegol yn arwain at 10 y cant yn fwy o fwyd yn cael ei gynhyrchu am unrhyw faint penodol o adnoddau. Plotiwch y gromlin posibilrwydd cynhyrchu newydd. Sut mae'r gost cyfle ar gyfer cynhyrchu unedau ychwanegol o ddillad wedi newid? **(20 marc)**

2. Tybiwch fod y tabl isod yn rhoi rhaglenni galw a chyflenwad wythnosol y farchnad am afalau:

Pris (£ y cilo)	5.00	4.50	4.00	3.50	3.00	2.50	2.00
Maint y galw ('00 cilo)	400	450	500	550	600	650	700
Y maint a gyflenwir ('00 cilo)	800	680	620	550	500	450	380

- (a) Plotiwch y cromliniau galw a chyflenwad i afalau ar yr un graff. **(10 marc)**
- (b) Nodwch y pris ecwilibriwm a'r maint ecwilibriwm. **(10 marc)**
- (c) Os bydd y llywodraeth yn dechrau talu £1.50 fesul cilo yn gymhorthdal i gynhyrchwyr afalau, cyfrifwch y rhaglen gyflenwi newydd a'i phlotio ar yr un graff â'r un a ddefnyddiasoch yn rhan (a) uchod. **(10 marc)**
- (d) Ar ôl i'r cymhorthdal gael ei gyflwyno yn rhan (c) uchod, beth fydd y pris ecwilibriwm newydd a faint fydd hyn yn costio i'r llywodraeth? **(10 marc)**
- (e) Yn lle darparu'r cymhorthdal hwnnw, tybiwch fod y llywodraeth yn gwarantu pris £2.00 fesul cilo i'r cynhyrchwyr afalau. Faint o afalau y byddai hi'n gorfod eu prynu er mwyn sicrhau bod yr holl afalau a gynhyrchwyd yn cael eu gwerthu? Faint fyddai hynny yn costio i'r llywodraeth? **(10 marc)**

3. Atebwch yr holl gwestiynau isod:

- (a) Gwahaniaethwch rhwng ategion (*complements*) ac amnewidynnau (*substitutes*) gan ddefnyddio enghreifftiau addas. **(12 marc)**
- (b) Tybiwch fod y farchnad am fara mewn ecwilibriwm. Defnyddiwch ddiagramau galw a chyflenwad ar wahân i ddangos effeithiau pob un o'r rhai isod ar y farchnad am fara: **(7x2=14 marc)**
- (i) pris gwenith yn codi
  - (ii) prisiau menyn a marjarîn yn codi
  - (iii) prisiau reis, pasta a thatws yn codi
  - (iv) pris tanwydd yn codi
  - (v) pris fframiau ffotos yn codi
  - (vi) incwm prynwyr bara yn codi
  - (vii) datblygiad arloesol newydd sy'n gwella'r broses gwneud bara
- (c) Esboniwch beth yw ystyr 'elastigedd y galw' ac 'elastigedd incwm y galw'. Beth sy'n dylanwadu ar y mathau hyn o elastigeddau'r galw? **(12 marc)**

- (d) Gan ba rai o'r rhai isod fydd arwyddion positif a gan ba rai fydd arwyddion negyddol? **(6x2=12 marc)**
- (i) Elastigedd pris y galw
  - (ii) Elastigedd incwm y galw am nwydd arferol
  - (iii) Elastigedd incwm y galw am nwydd nad yw o ansawdd cystal
  - (iv) Trawselastigedd y galw o ran newidiadau i bris amnewidyn
  - (v) Trawselastigedd y galw o ran newidiadau i bris ategyn
  - (vi) Elastigedd pris y cyflenwad
4. Defnyddiwch ddadleuon economaidd i asesu'n feirniadol oblygiadau'r ffaith bod y DU wedi pleidleisio i adael yr UE - i'r DU, i'r UE ac i weddill y byd. **(50 marc)**
5. Gan ddechrau â phwynt ecwilibriwm hirdymor, rhowch fraslun o'r broses ymaddasu y bydd economi yn mynd drwyddi wrth i'r Galw Cyfanredol gynyddu drwy ddefnyddio'r model Galw Cyfanredol - Cyflenwad Cyfanredol (AD-AS). **(50 marc)**
6. Atebwch yr holl gwestiynau isod:
- (a) Beth yw Cynnyrch Mewnwladol Crynswth (GDP)? Esboniwch yn gryno, bob un ar wahân, y dulliau cynnyrch, incwm a gwariant o fesur Cynnyrch Mewnwladol Crynswth. **(20 marc)**
  - (b) Rhowch fraslun o'r gwahanol fathau o ddiweithdra ar sail ei ffynonellau. **(15 marc)**
  - (c) Trafodwch y berthynas rhwng diweithdra cylchol, cyflogaeth lawn, a'r gyfradd diweithdra naturiol. **(15 marc)**
7. Atebwch yr holl gwestiynau isod:
- (a) Trafodwch yr agweddau nodweddiadol ar gystadleuaeth berffaith a monopoli, a gwahaniaethu rhyngddynt. Cymharwch yn feirniadol y sefyllfa ecwilibriwm hirdymor yn y ddau strwythur marchnad hyn. **(30 marc)**
  - (b) Nodwch pa gyflyrau mewn marchnad sy'n arwain at ymddygiad oligopolaidd ymhlith cwmnïau yn y farchnad. **(20 marc)**
8. Trafodwch yn feirniadol yr effaith economaidd yn sgil y sêl bendith a roddwyd gan lywodraeth y DU i ffracio yn Swydd Gaerhirfryn ym mis Hydref 2016. **(50 marc)**
9. Aseswch yn feirniadol effeithiau'r argyfwng mudwyr presennol yn yr UE, a'r ymatebion llywodraethol yn yr UE, gan ddefnyddio dadleuon economaidd. A

fyddech chi'n cytuno â defnyddio'r ymadrodd argyfwng 'mudwyr' i ddisgrifio'r  
argyfwng hwn? **(50 marc)**

---Diwedd y papur---